

5. Gwerthuso effaith

Rhan pump y pecyn gweithredu dysgu a datblygu ar gyfer gofal a chymorth dementia.

Image not found or type unknown



Cyhoeddwyd gyntaf: 17 June 2022

Diweddariad olaf: 6 January 2025

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gwella-gofal-a-chymorth/pobl-â-dementia/pecyn-gweithredu-dysgu-a-datblygu-ar-gyfer-gofal-a-chymorth-dementia/5-gwerthuso-effaith> am y fersiwn diweddaraf.

Mae'n bwysig asesu effaith dysgu a datblygu am fod hynny'n sicrhau bod pethau'n gweithio fel y dylent a bod proses barhaus o hunanystyried a gwella parhaus.

Wrth asesu effaith, dylech fod yn glir ynghylch beth sy'n gweithio'n dda ar gyfer y 'system gyfan' o ofal a chymorth. Profiadau pobl â dementia a'u teuluoedd yw'r prif fesur oherwydd:

- mae pobl sydd â dementia a'u teuluoedd yn gallu dod i gysylltiad â nifer o wasanaethau ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol yr un pryd
- os bydd yr unigolyn sydd â dementia yn cael un cysylltiad negyddol â gwasanaeth sy'n effeithio ar ei lesiant, gall hynny ddileu nifer o'r buddion o'r gwaith rhagorol a wnaed gan wasanaethau eraill.

Beth sy'n gweithio'n dda

Mae anawsterau'n codi wrth werthuso'r effaith o ddysgu a datblygu mewn gofal dementia ar lesiant pobl sydd â dementia am fod nifer o wahanol bethau yn gallu effeithio ar lesiant.

Peidiwch ag anelu at berffeithrwydd. Yn hytrach, datblygwch ddulliau gwerthuso sy'n ddigon da yn eich golwg chi a'ch partneriaid. Casglwch wybodaeth o fwy nag un ffynhonnell am fod tystiolaeth yn fwy dilys os yw wedi'i seilio ar wybodaeth o nifer o ffynonellau.

Mae asesiad effaith da:

- yn mesur yr effaith ar draws system gofal ranbarthol, yn ogystal â'ch sefydliad eich hun. Dylech ganolbwyntio ar ganlyniadau llesiant a phrofiad pobl o ofal. Lle da i ddechrau yw datblygu datganiadau llesiant ac asesu newidiadau yn agweddau meddwl staff

- yn ystyried anghenion amrywiol y boblogaeth sydd â dementia
- yn rhoi sylw i ffactorau allanol eraill a allai effeithio ar y canlyniadau llesiant a'r profiad o ofal sy'n cael ei adolygu. Er enghraifft, newidiadau o ran ariannu, newidiadau mewn staffio a newidiadau mewn pecynnau gofal
- yn canolbwyntio ar farn pobl sydd â dementia, eu teuluoedd a'r bobl sy'n eu hadnabod orau, ac yn myfyrio ar beth sy'n gweithio'n dda **a hefyd** beth sydd angen ei wella
- yn trefnu bod pobl sy'n fedrus wrth gyfathrebu â phobl sydd â dementia a'u teuluoedd yn gofyn am adborth ganddynt
- yn mesur newid dros amser, gan gofnodi agweddau a phrofiadau pobl ar wahanol gamau ar y llwybr gofal dementia.

Os bydd asesiadau effaith yn cael eu gwneud yn dda, byddant yn cymell staff i wneud eu gorau. Byddant:

- yn canolbwyntio ar beth sy'n gweithio a beth ellid ei wella, ac maent yn canmol llwyddiant
- yn nodi problemau o ran diogelwch a llesiant, ac yn eu datrys drwy fod yn onest ac agored yn hytrach na beio neu godi teimlad o ofn methiant.

Mae nifer o ffyrdd i gynnwys pobl. Er bod lle i holiaduron ac arolygon, cafwyd tystiolaeth gynyddol am y manteision o ddefnyddio storïau naratif mewn gwerthusiadau.

Casglwch wybodaeth o nifer o wahanol ffynonellau a pharchwch farn a storïau pawb sy'n cymryd rhan, yn cynnwys pobl sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd a'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

Dylech ddatblygu dull o fesur effaith y gellir ei gysylltu â Ffrwd Waith 5b yn y safonau gofal dementia (mesur).

Pam ei bod yn bwysig mesur effaith

Roedd Elvish et al (2014 a 2018) wedi mesur y cam cyntaf a'r ail gam wrth gyflwyno hyfforddiant mewn gofal dementia ar gyfer staff ysbytai cyffredinol yn Lloegr.

Roedd yr awduron wedi defnyddio dwy raddfa i fesur hyder staff (graddfa CODE) a gwybodaeth staff (graddfa KIDE) wrth iddynt weithio i gynorthwyo pobl sydd ag anableddau dysgu.

Y nod oedd mesur newidiadau yn hyder, gwybodaeth a dulliau staff o ran ymdrin ag ymddygiadau sy'n herio, ar ôl derbyn hyfforddiant 'Getting to Know Me'.

Roedd y canfyddiadau'n dangos bod yr hyfforddiant hwn wedi gwella:

- gwybodaeth a hyder staff wrth gynorthwyo pobl sydd â dementia
- y defnydd gan staff o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r canfyddiadau'n dangos pa mor bwysig yw gwerthuso effaith hyfforddiant staff ar y canlyniadau i bobl sy'n byw gyda dementia.

Adnoddau defnyddiol

- Y Grŵp Gwybodaeth: [Cefnogaeth gwerthuso - Gofal Cymdeithasol Cymru - Ymchwil, data ac arloesi](#).
- Caerdydd a Bro Morgannwg: [Ffurflen trafod hyfforddiant](#). Mae'r adnodd yma ar gael yn Saesneg yn unig.
- Caerdydd a Bro Morgannwg: [Dogfen](#) gwerthuso ac adborth hyfforddiant. Mae'r adnodd yma ar gael yn Saesneg yn unig.
- Ymarfer Tosturiol (2021) Mae [Compassionate Circles](#) yn daflen ganllaw 60 munud ar gyfer hwyluswyr a gwesteiywr. Mae [Taking Care Giving Care](#)

[Rounds in ABUHB](#) yn ganllaw ar gyfer sefydlu cylchoedd tosturiol. Gall y ddwy ddogfen hyn fod o gymorth i gyflwyno'r dull hwn yn lleol. Mae'r adnoddau yma ar gael yn Saesneg yn unig.

- [Experience Based Co-design](#) (Bates a Roberts 2007, Kings Fund). Mae'r canllaw hwn yn egluro sut i gasglu storïau pobl mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, ac uchafbwyntiau ac isafbwyntiau eu profiadau o ofal a chymorth. Wedyn caiff y storïau eu rhannu â staff mewn trafodaethau grŵp, a all fod yn fan cychwyn i wella gwasanaethau. Mae'r adnodd yma ar gael yn Saesneg yn unig.
- Mae [Magic Moments](#) (Andrews et al 2015) yn astudiaeth achos o arferion da sy'n dangos sut mae gwaith ar ddweud storïau mewn cartrefi gofal yng Nghymru wedi bod yn ffordd i gydnabod a datblygu gofal o ansawdd da. Mae'r adnodd yma ar gael yn Saesneg yn unig.
- [Ffilmiau PocketMedic](#) ac [erthygl yn Lancet Neurology](#) am y gyfres ffilmiau dementia hon. Cynhaliwyd gwerthusiad o'r ffilmiau PocketMedic gan y Ganolfan Arloesi Technolegau Cynorthwyol (AWTiC, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant) a'r rhain yw'r peth agosaf i'r cyfleoedd i ddysgu drwy brofiad go iawn y dangoswyd eu bod yn fwyaf effeithiol. Mae'r adnoddau yma ar gael yn Saesneg yn unig.
- [Ffrwd waith mesur y llwybr safonau gofal dementia](#). Mae'r adnodd yma ar gael yn Saesneg yn unig.